

Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Abertawe Amodau a Thelerau 2021

Aelodaeth

Mae aelodaeth ar-lein yn caniatáu i chi ddefnyddio'n casgliadau digidol megis e-lyfrau, e-lyfrau llafar a lawrlwythiadau. Pan fyddwch yn ymuno ar-lein, byddwch yn derbyn rhif adnabod llyfrgell a rhif adnabod personol o'ch dewis ar gyfer eich defnydd personol.

Mae aelodaeth lawn o'r llyfrgell yn caniatáu i chi ddefnyddio holl wasanaethau'r llyfrgell a ddarperir gan Lyfrgelloedd Abertawe a'n sefydliadau partner. Pan fyddwch wedi ymuno fel aelod llawn, byddwch yn derbyn cerdyn aelodaeth llyfrgell a Rhif Adnabod Personol ar gyfer eich defnydd personol.

Codir tâl am rai o wasanaethau'r llyfrgell. Gallwch ddod o hyd i fanylion y rhain yn www.abertawe.gov.uk/ffioeddlllyfrgell

- Mae'n rhaid i aelodau'r llyfrgell gyflwyno'u cardiau aelodaeth llyfrgell pan fyddant yn benthyca eitemau ac yn defnyddio cyfrifiaduron y llyfrgell.
- Fel aelod o'r llyfrgell, rydych yn gyfrifol am yr holl eitemau rydych yn eu benthyca ar eich cerdyn llyfrgell, gan gynnwys unrhyw eitemau a gollir neu a ddifrodir ac y gall fod yn rhaid i chi dalu amdanynt, a'ch cyfrifoldeb chi yw talu unrhyw ffioedd hwyr neu daliadau a gronwyd ar eich cyfrif llyfrgell. Os aiff y cerdyn ar goll, mae'n rhaid i chi hysbysu'r llyfrgell. Gellir codi tâl am gardiau newydd..
- Rydych yn gyfrifol am ddweud wrthym am unrhyw newidiadau i'ch manylion personol, fel newid cyfeiriad er enghraifft. Gallwch hefyd wneud hyn drwy fewngofnodi ar-lein yn wales.ent.sirsiidynix.net.uk/client/cy_GB/swan_cy/
- Rydych yn cadw'r hawl i derfynu'ch cyfrif ar unrhyw adeg.
- Os hoffech ddi-ddymu'ch aelodaeth o'r llyfrgell, bydd yn rhaid i chi ddychwelyd yr holl eitemau rydych wedi'u benthyca a dychwelyd eich cerdyn aelodaeth i'w ganslo. Os oes unrhyw daliadau'n weddill yn eich cyfrif, disgwylir i chi dalu amdanynt.

Defnydd o gyfrifiaduron y llyfrgell a'r rhyngwyd

- I ddefnyddio'n cyfrifiaduron cyhoeddus, mae'n rhaid i chi fod yn aelod o'r llyfrgell ac mae'n rhaid i'ch cerdyn aelodaeth a'ch Rhif Adnabod Personol fod gyda chi ar bob adeg. Ni ellir trosglwyddo mynediad aelod o'r llyfrgell at y rhyngwyd i unrhyw berson arall.
- Mae'n rhaid i holl ddefnyddwyr y cyfrifiaduron/Wi-Fi gytuno i'r Polisi Defnydd Derbyniol wrth fewngofnodi yn ystod pob sesiwn netloan.swansea.gov.uk/netloan/Login.aspx
- Gallwch ddefnyddio'r feddalwedd a osodwyd ar ein cyfrifiaduron yn unig.
- Os ydych dan 16 oed, byddwch yn derbyn ffurflen ganiatâd ynghylch defnyddio'r rhyngwyd i'ch rhiant neu'ch ceidwad ei llofnodi.

- Cyfrifoldeb y rhiant neu'r gofalwr yw monitro a rheoli sut mae'r plant maent yn gofalu amdanynt yn defnyddio'r rhyngwrwd a chyfrifiaduron y llyfrgell. Os oes gennych bryderon am y cynnwys y gall eich plentyn gael mynediad ato gan ddefnyddio cyfrifiadur llyfrgell, gofynnwn i rieni/ofalwyr fod yng nghwmni'r plant yn ystod eu hymweliad cyntaf â'r llyfrgell.
- Hidlir mynediad at y rhyngwrwd a chofnodir mynediad. Ni chaiff cynnwys penodol unrhyw weithgarwch neu drafodion ei fonitro oni bai fod amheuaeth ynghylch defnydd amhriodol.
- Gellir cyfeirio achosion o doriadau anghyfreithiol neu anghyfreithlon o'r Polisi Defnydd Derbyniol er mwyn cymryd camau cyfreithiol neu gellir eu cyfeirio at yr heddlu, yn unol â phrotocolau rhannu gwybodaeth a chyfrifoldebau cyfreithiol y cyngor.
- Bydd angen prosesu data personol er mwyn defnyddio cyfrifiaduron cyhoeddus a'r rhyngwrwd, ac mae ein hymrwymiad i ddiogelu'r data hwnnw wedi'i amlinellu isod,

Diogelu data a chadw data personol

Mae Cyngor Abertawe'n parchu'ch hawl i breifatrwydd ac mae'n ymroddedig i'w amddiffyn yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu fel rhan o'ch aelodaeth â Llyfrgelloedd Abertawe. Mae Llyfrgelloedd Abertawe'n bwriadu cadw, cynnal a defnyddio'r data hwn yn unol â Pholisi Diogelu Data'r cyngor a thelerau Hysbysiad Preifatrwydd y cyngor www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd

Mae'r wybodaeth rydych yn ei darparu i ni pan fyddwch yn ymuno â'r llyfrgell yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r contract sydd rhyngom. Gall peidio â darparu'r wybodaeth hon arwain at derfynu'n contract.

Defnyddio'r Llyfrgell

- Gofynnir i gwsmeriaid fod yn gwrtais ac yn barchus i ddefnyddwyr eraill y llyfrgell a staff.
- Ni oddefir unrhyw ymddygiad ymosodol yn erbyn staff neu gwsmeriaid eraill ac ymdrinnir â hyn drwy bolisi Ymddygiad Afreolus y cyngor www.abertawe.gov.uk/ymddygiad
- Gall dwyn eitemau o'r llyfrgell arwain at gamau gweithredu cyfreithiol a/neu erlyniad troseddol.
- Mae'r mwyafrif o eitemau am ddim i'w benthyca am y cyfnod benthyg a nodir. Manylir ar unrhyw ffioedd dychwelyd yn hwyr a ffioedd benthyca yn ein hysbysiad taliadau yn www.abertawe.gov.uk/ffioeddlllyfrgell. Codir ffi o uchafswm o £5 fesul eitem am eitemau hwyr i gwsmeriaid. Sicrhewch eich bod yn talu unrhyw ddirwyon neu daliadau yn brydlon ac yn dychwelyd eitemau a fenthycwyd yn brydlon.
- Tybir bod eitemau sy'n hwyr iawn wedi'u colli a chodir tâl cost y llyfr ar gyfrif y defnyddiwr.

- I ddefnyddio adnoddau digidol y llyfrgell neu gyfrifiaduron personol i fenthycu deunydd, bydd yn rhaid i chi ddod yn aelod o'r llyfrgell a nodir yr amodau defnyddio uchod.
- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau rydych chi'n eu hail-ddefnyddio o'r casgliadau neu unrhyw ddeunyddiau rydych chi'n cael mynediad atynt drwy ein rhwydwaith mynediad cyhoeddus yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys deddfwriaeth eiddo deallusol a hawlfraint www.gov.uk/topic/intellectual-property/copyright.
- Gofynnir i gwsmeriaid beidio â gwisgo dillad anweddus e.e. dillad traeth, dillad gwlyb a chymryd camau i fod yn gyfrifol am eu hylendid personol i osgoi peri tramgwydd i gwsmeriaid eraill y llyfrgell ac achosi difrod i eiddo'r llyfrgell.
- Caniateir cyfarpar clywedol â chlustffonau ond sicrhewch nad yw cwsmeriaid eraill y llyfrgell yn gallu clywed unrhyw beth.
- Ni chaniateir tynnu lluniau neu ffilmio yn y llyfrgell heb ganiatâd. Gallwch wneud cais i dynnu lluniau neu ffilmio yn y llyfrgell drwy'r cyngor yn www.abertawe.gov.uk/ffilm a bydd angen caniatâd ymlaen llaw os ydych am dynnu lluniau o aelodau eraill o'r cyhoedd/staff, neu eu ffilmio.
- Gellir defnyddio ffonau symudol ond dylid cynnal unrhyw sgysiau sy'n tarfu ar eraill, neu y gallent darfu ar eraill, y tu allan i brif ardal y llyfrgell.
- Mae'n rhaid i unrhyw luniau â chaniatâd fod yn ystyriol o'r casgliadau, staff y llyfrgell ac ymwelwyr eraill.
- Dylid bwyta/yfed cyn lleied â phosib. Byddwch yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill ar bob adeg. Efallai y bydd gofyn i chi beidio â bwyta neu symud i ardal arall i fwyta'ch eitemau.
- Ni chaniateir i chi ddefnyddio na fod dan ddylanwad alcohol, cyffuriau na sylweddau anghyfreithlon.
- Ni chaniateir smygu nag e-sigaréts yn unrhyw un o'n hadeiladau
- Os bydd angen gadael mewn argyfwng, dilynwch gyfarwyddiadau staff y llyfrgell
- Rydych chi'n dod ag eiddo personol i'r llyfrgell ar eich menter eich hun.
- Nid ydym yn argymhell eich bod yn gadael unrhyw eiddo sy'n berchen i ddefnyddwyr ar safleoedd y llyfrgell.

Dylid darllen yr amodau a thelerau cyffredinol hyn ar y cyd ag Is-ddeddfau'r Llyfrgelloedd (a wnaed o dan Adran 19 o Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 gan Ddinas a Sir Abertawe) - ar gael ar gais.

Nid yw'r amodau hyn yn gynhwysfawr ac efallai y byddwn yn eu hadolygu ar unrhyw adeg ac yn gofyn i chi roi'r gorau i unrhyw weithgaredd arall a all arwain at beri tramgwydd ar unrhyw adeg. Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu hysbysu ar ein gwefan. Drwy barhau i ddefnyddio'n gwasanaethau, ar ôl i ni roi gwybod i chi am y newid mewn amodau, rydych yn cytuno i'r amodau a'r telerau defnyddio diwygiedig hyn.

Cyswllt: Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgelloedd

Llyfrgelloedd Cyngor Abertawe

Canolfan Ddinesig

Oystermouth Road

Abertawe

SA1 3SN

01792 636430

llinelllyfrgelloedd@abertawe.gov.uk